OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 878 (Cy. 192)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Nant Ffrancon, Gwynedd) (Gwahardd Aros) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym* | *21 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1),** ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Nant Ffrancon, Gwynedd) (Gwahardd Aros) 2020 a daw i rym ar 21 Awst 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

**Gwahardd aros ar unrhyw adeg**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

---

**(1)** 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Esemptiad**

**4.** Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i'r cerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar gerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**2**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

---

(**2**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Awst 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

### Y darnau o'r gefnffordd

1. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol cefnffordd yr A5 yn Nant Ffrancon sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Ganolfan Bwthyn Ogwen hyd at bwynt 436 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

2. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A5 yn Nant Ffrancon sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Ganolfan Bwthyn Ogwen hyd at bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

3. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A5 yn Nant Ffrancon sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Ganolfan Bwthyn Ogwen hyd at bwynt 436 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.